

Cyfarfod Cyffredinol Cyngor Tref Penrhyndeudraeth, 10 Medi 2026, 7.00 yh yn y Neuadd Drefol

General Meeting of Cyngor Tref Penrhyndeudraeth 10 September 2026 at 7.00pm in the Neuadd Drefol

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod yn y Neuadd Drefol neu arsylwi'n rhithol drwy gysylltu â ctpenrhyndeudraeth@gmail.com

Members of the public can join the meeting in the Neuadd Drefol or remotely by contacting

ctpenrhyndeudraeth@gmail.com

1. **Croeso/Welcome:** Croesawyd pawb/ *Welcome to all.*
2. **Presennol ac Ymddiheuriadau/ Present and apologies**
 - 2.1 **Presennol/Present:** Einir Williams (Cadeirydd), Gwyn Vaughan Jones, Sarah Roberts, Nia Jones, Emma Fon Orr, Tony Owen, Steven Murray (Clerc Asedau) a Rhiannon Davies-Jones (Clerc).
 - 2.2 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Ashley Jones (is-gadeirydd), Y Cyng. Meryl Roberts a Sion Harris.
 - 2.3 **Aelod or cyhoedd/ Members of the Public:** Katie Hughes
3. **Cymeradwyo cofnodion Gorffennaf / Approve July minutes** - Cymeradwywyd gan/accepted by SR a EFO.
4. **Datgan buddiant, cysylltiad, diddordeb/ Declaration of interest, benefits, connection** - Dim/None.
5. **Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol/Matter arising from the previous minutes** - Dim/None.
6. **Adroddiad ariannol / financial report**
 - 6.1 Y llyfr arian/ Cash book

I FEWN

R&M Utilities - rhent Maes parcio	£800.00
Dref Werdd - rhent Neuadd Drefol	£100.00
Meryl Roberts - rhent Neuadd Drefol	£50.00
Praesept - ail rhan	£46,457.00

ALLAN

BT - internet	£39.54
Alan Williams - cynnal a chadw	£288.00
Cameron Jones - torri gwair	£1250.00
Dafydd BC - torri gwair estyniad	£400.00
Ffon Clerc	£13.00
NEST - pensiwn	£62.79
Dwr Cymru - dwr swyddfa	£94.82
Rhiannon - Cyflog Clerc	£2093.15 (cynnwys yr ol-daliad o 1 Ebrill)
Steven - Cyflog	£1361.30 (cynnwys yr ol-daliad o 1 Ebrill)
PAYE & NIC	£500.84
British Gas - gas swyddfa	£50.31
Xero UK Ltd - cyfrifon	£44.40
Smartest energy - trydan swyddfa	£62.09
Chat GPT	£7.00
Zoom	£16.79
Microsoft - pecyn microsoft office	£8.49
Awdit Wales - ffioedd 22/23 a 23/24	£723.53 (ail taliad)
B&M - blodau - planter swyddfa	£13.68
Gardencraft - blodau	£18.65
Amazon - nwyddau swyddfa	£13.99
Jewsons - paent i'r ffeinciau	£43.85
ARAG Law - ail taliad/olaf	£3,511.81
Angels of Harlech - 6 barrell	£150.00 (rhan o grant Gwynedd Ni)

Nodwyd fod cyflogau'r Clerc a'r Clerc Asedau wedi'u diweddarau yn unol â dyfarniad cyflog cenedlaethol NJC, a bod cyflog y mis hwn yn cynnwys yr ôl-dâl sy'n ddyledus o 1 Ebrill 2026/ *It was noted that the salaries of the Clerk and the Assets Clerk had been updated in line with the national NJC pay award, and that this month's salary included the back pay due from 1 April 2026.*

7. Eitemau i'w trafod/ *Items for Discussion*

7.1 Cronfa Cefnogi Cyngorau Dinas, Tref a Chymuned 2026/*Town and Community Councils Support Fund 2026* - Penderfynwyd yn unfrydol y dylid defnyddio'r arian ar gyfer gosod si-so newydd ym Mharc Minffordd. Adolygwyd y ddau ddyfynbris a dderbyniwyd (gan nad oedd un contractwr wedi ymateb i'r cais am ddyfynbris), a chytunwyd i fwrw ymlaen â Wicksteed ar gyfer cyflenwi a gosod y si-so newydd. *All agreed that the money should be used to install a new see-saw at the park in Minffordd. The two quotes were reviewed (one contractor had not responded to the request) and it*

was agreed that we should proceed with Wicksteed for the installation of the new see-saw.

7.2 CCTV yn Parc Mileniwm/ *CCTV in the Parc Mileniwm* - Rhannwyd gwybodaeth a dderbyniwyd drwy MR fod aelod o'r cyhoedd wedi datgan y byddai'n fodlon cyfrannu tuag at gost gosod CCTV ym Mharc y Mileniwm er mwyn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nodwyd nad oes cyflenwad trydan yn y parc ar hyn o bryd. Awgrymodd RDJ y dylid cysylltu ag Openreach i weld a fyddai'n bosibl gosod y system CCTV ar eu hadeilad. Cytunodd SM i gysylltu ag Openreach i wneud ymholiadau pellach/ *Information received via MR was shared confirming that a member of the public had indicated they would be willing to contribute towards the installation of CCTV at the Millennium Park to help address antisocial behaviour. It was noted that there is currently no electrical supply within the park. RDJ suggested contacting Openreach to establish whether the CCTV system could be installed on their building. SM agreed to contact Openreach to make further enquiries.*

7.3 Adborth - Arolwg Cymunedol Cyngor Tref Penrhyndeudraeth/ *Feedback - Community Survey Cyngor Tref Penrhyndeudraeth* - Gofynnodd EW i'r holl gynghorwyr adolygu'r ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg, gyda'r bwriad o'u trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor/ *EW asked all Councillors to review the responses received to the survey, with a view to discussing them further at the next Council meeting.*

7.4 Cist Gwynedd – Cronfa Cefnogi Rhandiroedd 2026–2027/ *Cist Gwynedd - Allotment Support Fund 2026-2027* - Cadarnhaodd RDJ fod CG wedi cysylltu ynghylch y Gronfa Cefnogi yr oedd y Gymdeithas Randiroedd wedi gwneud cais amdani yn flaenorol, gan ofyn a oedd y Cyngor Tref yn dymuno bwrw ymlaen. Dywedodd SM nad oedd amodau'r caniatâd cynllunio wedi'u rhyddhau eto gan nad oedd y profion pridd a dŵr wedi'u cwblhau. Nodwyd fod rhan o'r grant yn cynnwys dyfynbris ar gyfer clirio'r safle, ynghyd â 10 gwely uchel a 2 wely hygyrch wedi'u llenwi â phridd. Cytunodd y cynghorwyr y byddai'n synhwyrol clirio'r safle er mwyn ei baratoi, ond nad oedd angen y gwelyau uchel ar hyn o bryd gan na fyddai modd eu gosod hyd nes y byddai'r amodau cynllunio wedi'u rhyddhau. Gofynnwyd i RDJ gysylltu â CG i drafod y mater ymhellach ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

RDJ confirmed that CG had been in touch regarding the Support Fund that the Allotment Society had previously applied for, to establish whether the Council wished to proceed. SM advised that the planning conditions had not yet been discharged as the soil and water tests had not been completed. It was noted that part of the funding included a quotation to clear the site, together with 10 raised beds and 2 accessible beds complete with soil. Councillors agreed that it would be sensible to clear the site in readiness; however, the raised beds were not required at this stage as they could not be installed until the planning conditions had been discharged. RDJ was asked to contact CG to discuss the matter further and report back to the Council.

7.5 Lleoliad Binau Halen Newydd / *Location of the new Salt Bins* - Trafododd y Cyngor Tref y lleoliadau arfaethedig ar gyfer dau fin halen newydd, un ym Mhenrhyndeudraeth

ac y llall ym Minffordd. Atgoffwyd yr aelodau fod y Cyngor Tref wedi cytuno'n gynharach yn y flwyddyn i osod dau fin halen newydd bob blwyddyn er mwyn helpu'r gymuned yn ystod cyfnodau o eira a rhew yn ystod misoedd y gaeaf. Cytunwyd y byddai'r bin halen ym Mhenrhyndeudraeth yn cael ei osod ym Mryn Islwyn, ac y byddai'r bin ym Minffordd yn cael ei osod wrth ymyl y diffibriliwr. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i fwrw ymlaen â'r trefniadau/ *The Town Council discussed the proposed locations for two new salt bins, one in Penrhyndeudraeth and one in Minffordd. Members were reminded that the Town Council had previously agreed to install two new salt bins each year to help support the community during periods of snow and ice throughout the winter months. It was agreed that the salt bin in Penrhyndeudraeth would be installed at Bryn Islwyn, and that the salt bin in Minffordd would be installed adjacent to the defibrillator. The Clerk was asked to contact Gwynedd Council to progress the arrangements.*

8. Eitemiau sefydlog/Regular items

8.1 Mynwent Minffordd Cemetery - Rhannwyd gwybodaeth fod aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu â'r Cyngor i ofyn am ganiatâd i osod plac coffa ar y fainc newydd yn Mynwent Minffordd er cof am ei mam a'i thad. Cytunodd yr holl gynghorwyr nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r cais/ *Members were advised that a member of the public had contacted the Council to request permission to install a memorial plaque on the new bench at Minffordd Cemetery in memory of her mother and father. All Councillors agreed that they had no objection to the request.*

8.2 Parc Mileniwm/ Millennium Park - Rhannwyd gwybodaeth fod aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu â'r Cyngor Tref i ofyn a fyddai'n bosib torri'r gwair a chael gwared ar y chwyn ar hyd y llwybr ger Penbryn View. Cadarnhaodd SM ei fod wedi ymchwilio i'r mater ymhellach a bod y llwybr dan sylw ddim ym mherchnogaeth y Cyngor Tref. Cytunodd SM i drafod y mater ymhellach gyda chontractwr y Cyngor Tref er mwyn cael amcangyfrif o'r gost, ac i adrodd yn ôl/ *Councillors were advised that a member of the public had contacted the Town Council to ask whether the grass could be cut and the weeds removed from the path near Penbryn View. SM confirmed that he had investigated the matter further and that the path is not owned by the Town Council. SM agreed to discuss the matter further with the Town Council's contractor to obtain an estimate of the likely cost and report back.*

8.3 Cae Cookes - Fel y nodwyd uchod/ *As above.*

8.4 Cae Chwarae Minffordd Playground - Cadarnhaodd SM ei fod wedi cysylltu â'r cwmni a osododd y rowndabowt yn wreiddiol, ac wedi derbyn dyfynbris o £390.00 (gan gynnwys TAW) i'w atgyweirio. Nodwyd y gallai fod cost ychwanegol am y darnau, a fyddai'n cael eu hanfonebu ar wahân. Cytunodd yr holl gynghorwyr eu bod yn fodlon derbyn y dyfynbris/ *SM confirmed that he had contacted the original installer of the roundabout and had obtained a quotation of £390.00 (including VAT) to carry out the repairs. It was noted that there may be an additional charge for any*

replacement parts, which would be invoiced separately. All Councillors agreed that they were happy to accept the quotation.

- 8.5 Maes y Parc - Rhannwyd gwybodaeth fod SH wedi cysylltu â SM a RDJ cyn y cyfarfod i'w hysbysu fod y clwb pêl-droed yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio i godi pafiliwn newydd yn lle'r ystafelloedd newid presennol. Adolygwyd y cynlluniau gan y cynghorwyr, a chytunodd yr holl gynghorwyr nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r cais/ *Councillors were advised that SH had contacted SM and RDJ prior to the meeting to confirm that the football club intends to apply for planning permission to construct a new pavilion to replace the existing changing rooms. The plans were reviewed by Councillors, and all Councillors agreed that they had no objection to the application.*
- 8.6 Ffyrdd a parcio / parking and road - Cadarnhaodd RDJ fod y Cyngor Tref wedi derbyn dyfynbris gan Gyngor Gwynedd ar gyfer gosod arwyddion ychwanegol ger troiad Portmeirion, yn dilyn pryderon bod ymwelwyr yn methu'r troiad ac yn gyrru i mewn i stadau tai ym Minffordd i droi eu geir, gan achosi aflonyddwch i rai trigolion. Nodwyd y byddai cost yr arwyddion rhwng £500 a £1,000, a gofynnwyd i'r Cyngor Tref a fyddai'n fodlon cyfrannu tuag at y gost. Trafododd y cynghorwyr y mater, a chytunwyd na ddylai'r Cyngor Tref gyfrannu tuag at gost yr arwyddion.

RDJ confirmed that the Town Council had received a quotation from Cyngor Gwynedd for the installation of additional signs near the Portmeirion turning, following concerns that visitors were missing the turning and driving into the housing estates in Minffordd to turn their vehicles around, causing disruption to residents. It was noted that the cost of the signs would be between £500 and £1,000, and the Town Council had been asked whether it would be willing to contribute towards the cost. Councillors considered the matter and agreed that the Town Council should not contribute towards the cost of the signs.

9. Gohebiaeth/ Correspondence

- 9.1 E-bost gan Un Llais Cymru - Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionydd/ *Email from Un Llais Cymru - Meirionydd Area Committee Minutes* - Er gwybodaeth/FYI.
- 9.2 Gorchymyn Diogelu Coed C25/03/TP - 3 Cae Ednyfed, Minffordd, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6HF - *Tree Preservation Order* - Er gwybodaeth/FYI.
- 9.3 Un Llais Cymru - Prosiect Argyfwng Costau Byw/ *Cost of Living Project* - Er gwybodaeth/FYI.
- 9.4 Ebst gan Perthyn - Grantiau Perthyn i Gymunedau/ *Perthyn Grants for Communities* - Er gwybodaeth/FYI.

9.5 Ebst gan Cyngor Gwynedd - Rhybudd - Cau Ffordd yr A4085 ym
Mhenrhyndeudraeth/ *Email from Cyngor Gwynedd - Notice - Closure of the A4085 Road
in Penrhyndeudraeth - Er gwybodaeth/FYI.*

9.6 Ebst gan Adran Amgylchedd - Arolwg diwygio bysiau Gogledd Cymru/ *Email
received from Environment Department - Survey on Bus Reform in North Wales - Er
gwybodaeth/FYI.*

9.7 Un Llais Cymru - Dyddiadau Hyfforddiant - Awst - Rhagfyr 2026/ *Training Dates -
August - December 2026 - Er gwybodaeth/FYI.*

9.8 Ebst gan Cyngor Gwynedd - Safle y Byd Llechi Cymru/ *Email from Cyngor Gwynedd -
Wales Slate World Heritage Site - Er gwybodaeth/FYI.*

9.9 Ebst gan Cymdeithas Owain Glyndwr - Dydd Glandwr 2026 - 16/09/ *Email from
Cymdeithas Owain Glyndwr - Glandwr Day 2026 - 16/09 - Er gwybodaeth/FYI.*

10. Materion Cynllunio/Planning Matters - Dim/None.

11. Adroddiadau/Reports - Dim/None.

**Dyddiad cyfarfod nesaf 8 Hydref 2026 7yh yn y Neuadd Drefol/ Date and location of next
meeting 8 October 2026 7pm in the Neuadd Drefol**